| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 4 Gorffennaf 2023 |
| **Aelod Arweiniol** | Y Cynghorydd Julie Matthews, Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol |
| **Swyddog Arweiniol** | Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd |
| **Awdur yr Adroddiad** | Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Kath Jones, Gweinyddwr Pwyllgorau |
| **Teitl** | Amserlen Bwyllgorau 2024 |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yma'n cynnwys fersiwn ddrafft o amserlen bwyllgorau ar gyfer 2024.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo amserlen ar gyfer 2024 er mwyn gallu cadarnhau trefniadau cyfarfod ac adnoddau, cyhoeddi'r amserlen a llenwi dyddiaduron yr Aelodau.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r amserlen bwyllgorau ar gyfer 2024, yn unol ag atodiad 1.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae'r amserlen ddrafft ar gyfer 2024 yn amgaeedig fel atodiad 1 ac mae hefyd yn cynnwys eglurhad fesul pwyllgor o'r ffactorau sydd y tu ôl i nodi dyddiadau addas ar gyfer pob cyfarfod.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae cymeradwyo amserlen bwyllgorau yn ganolog i weithrediad y systemau democrataidd a phwyllgora sy'n elfennau hanfodol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac sy'n cyfrannu at flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae costau cynnal system pwyllgorau yn cael eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol ond fe wnaeth y Cyngor ymrwymiad yn 2015, drwy ei broses Rhyddid a Hyblygrwydd, i leihau nifer y cyfarfodydd pwyllgor a oedd yn cael eu cynnal ar y pryd i arbed costau cysylltiedig. Gall gwasanaethau ar draws y Cyngor gyfrannu at y cyfarfodydd a gynhwysir yn yr amserlen, fel arfer trwy gyfrannu gwybodaeth, adroddiadau ac amser swyddogion.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

7.2. Mae'r amserlen flynyddol o gyfarfodydd yn broses sefydledig ac yn cyflawni nodau'r ddeddfwriaeth les a chydraddoldeb. Y prif 'ddefnyddwyr gwasanaeth' yw aelodau'r pwyllgorau a'r swyddogion ategol, er bod y wasg a'r cyhoedd hefyd yn gallu mynychu'r mwyafrif o gyfarfodydd, neu'n gallu gwylio cyfarfodydd gwe-ddarlledu ar-lein. Mae lefel y diddordeb neu'r ymgysylltiad ag unigolion neu grwpiau'n debygol o ddibynnu i raddau helaeth ar y pwnc o dan ystyriaeth.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ym mis Rhagfyr 2022 a mis Ionawr 2023 cynhaliwyd arolwg o amseroedd cyfarfodydd gan ofyn am farn yr aelodau. Mae amserlen bwyllgorau 2024 yn seiliedig ar y fframwaith presennol a gymeradwywyd gan y Cyngor ar gyfer cyfarfodydd ac mae hi'n cyd-fynd â chanlyniadau'r arolwg.

8.2. Ymgynghorwyd â'r swyddogion sy'n cefnogi gwaith y gwahanol bwyllgorau a phanelau ynghylch yr amserlen bwyllgorau, i nodi dyddiadau posibl ar gyfer cyfarfodydd.

8.3. Mae’r grwpiau gwleidyddol wedi bod yn enwebu cynrychiolwyr i ymuno â gweithgor i adolygu penderfyniadau’r Cyngor blaenorol ynghylch sut caiff cyfarfodydd aelodau eu cynnal h.y. wyneb yn wyneb, o bell neu hybrid. Bydd y gweithgor yn ystyried y fframwaith cyfreithiol a’r dewisiadau sydd ar gael i gyflwyno unrhyw argymhelliad i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a’r Cyngor llawn. Nid yw’r gwaith hwn yn effeithio ar yr amserlen ddrafft ar gyfer 2024.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

10.1. Byddai methu â chadarnhau’r amserlen yn cael effaith andwyol ar drefniadau llywodraethu’r Cyngor.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

11.2 Adran 6 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn cysylltiad ag arolygu aelodau ar amseru cyfarfodydd y Cyngor.